HEDDLU GWENT POLICE

Stopio a Chwilio a Defnyddio Grym

Adroddiad Blynyddol 2022/2023

PWRPAS AC ARGYMHELLIAD

Pwrpas yr adroddiad blynyddol yma yw rhoi golwg dryloyw ar y defnydd o stopio a chwilio a defnyddio grym yng Ngwent dros y 12 mis diwethaf o fis Ebrill 2022 tan fis Mawrth 2023. Bydd yn esbonio beth mae Heddlu Gwent yn ei wneud i wella'r gwasanaeth mae'n ei ddarparu a sicrhau bod pwerau'r heddlu'n cael eu defnyddio'n effeithiol, yn gyfreithiol ac yn gymesur.

CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Mae stopio a chwilio yn parhau i fod yn bŵer hynod o bwysig i'r heddlu er mwyn amddiffyn y cyhoedd, mynd i'r afael â throsedd a chadw ein strydoedd yn ddiogel. Mae Heddlu Gwent yn ymwybodol o effaith stopio a chwilio ar gymunedau ac unigolion. Rydym yn gwybod, er mwyn cynnal hyder y cyhoedd yn y defnydd ohono, bod rhaid defnyddio'r pŵer mewn ffordd deg ac effeithiol. Y prif reswm rydym yn defnyddio stopio a chwilio yw er mwyn galluogi swyddogion i ymchwilio i'w hamheuon am unigolyn heb orfod ei arestio. Mae effeithiolrwydd stopio a chwilio yn ymwneud lawn cymaint ag osgoi arestio'n ddiangen â chanfod trosedd. Rydym yn credu bod stopio a chwilio'n fwyaf tebygol o fod yn deg ac effeithiol:

1. pan fo'r chwilio yn gyfiawn, yn gyfreithlon ac yn gwrthsefyll craffu cyhoeddus;
2. pan fo gan y swyddog amheuaeth wirioneddol a gwrthrychol y bydd yn dod o hyd i eitem sydd wedi'i gwahardd neu eitem a fyddai'n cael ei defnyddio i gyflawni trosedd;
3. pan fo'r unigolyn yn deall pam ei fod wedi cael ei chwilio ac yn teimlo ei fod wedi'i drin â pharch;
4. pan fo'r chwilio yn angenrheidiol ac mai dyma'r dull mwyaf priodol y gallai'r swyddog heddlu ei ddefnyddio i ganfod a oedd gan yr unigolyn eitem o'r fath.

Er bod stopio a chwilio'n dacteg hollbwysig wrth ymladd trosedd, tarfu ar droseddwyr, a chasglu cudd-wybodaeth rydym yn croesawu craffu a byddwn yn parhau i weithio gyda'n cymunedau a rhanddeiliaid i wella ansawdd y rhyngweithio a sicrhau bod stopio a chwilio'n parhau i amddiffyn y cyhoedd.

3. CRAFFU MEWNOL AC ATEBOLRWYDD

Mae ystadegau cenedlaethol yn dangos bod y defnydd o stopio a chwilio trwy Gymru a Lloegr wedi gostwng yn sylweddol gan 25% ers y pandemig Covid. Mae'r lleihad yma wedi cael ei adlewyrchu yng Ngwent ar ôl y cynnydd a welwyd yn ystod blynyddoedd y pandemig a oedd yn rhannol oherwydd plismona rhagweithiol yn ystod cyfnodau clo. Mae'r heddlu wedi rhoi pwyslais sylweddol ar adfywio'r defnydd o stopio a chwilio priodol, moesegol a chymesur, a chafwyd ychydig o gynnydd yn ei ddefnydd yn ystod 2022/23. Fodd bynnag, gyda hyn daw ein hymrwymiad i sicrhau bod yr hyn rydym yn ei wneud yn gyfreithlon. Mae'r isadrannau canlynol yn dangos y gwaith monitro a chraffu sydd ar waith gennym ni.

Bwrdd Perfformiad Gweithredol

Cyfarfod misol sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol, lle mae data am y defnydd o stopio a chwilio a defnyddio grym yn cael eu cyflwyno a'u hystyried ochr yn ochr â gwybodaeth perfformiad ehangach am y ffordd mae'r heddlu'n trin pobl.

Bwrdd Craffu ar Bwerau Gorfodi

Dan gadeiryddiaeth yr uwch-arolygydd sy'n gyfrifol am y portffolio, mae'n cwrdd bob tri mis ac mae'n mynd ati i geisio canfod gwybodaeth a allai awgrymu camddefnydd o bwerau neu ymddygiad gwahaniaethol. Ffurfiwyd y grŵp yn 2020 ac mae'n cynnwys trawstoriad o uwch reolwyr yr heddlu, swyddogion hyfforddi a swyddogion amrywiaeth a chynhwysiant sy'n goruchwylio ac yn craffu'n fewnol ar y defnydd o bwerau gorfodol sy'n cynnwys stopio a chwilio, chwilio noeth, defnyddio Taser a defnyddio grym. Mae'r grŵp yn adolygu data stopio a chwilio'r heddlu o'r cyfnod mwyaf diweddar gan ddadansoddi'n ofalus i ganfod unrhyw dueddiadau neu batrymau sy'n peri pryder, defnydd annerbyniol, cyfleoedd i ddysgu, materion polisi, ac archwiliad o anghymesuredd. Mae cofnodion swyddogion sy'n cael eu nodi i fod yn defnyddio llawer o bwerau stopio a chwilio a defnyddio grym yn cael eu harchwilio gan yr arweinydd tactegol stopio a chwilio a defnyddio grym.

Craffu Ardal Blismona Leol

Mae'r ddwy ardal ddaearyddol (Dwyrain a Gorllewin) yn cynnal cyfarfodydd perfformiad a chraffu bob mis. Mae stopio a chwilio a defnyddio grym yn rhan o adolygiad perfformiad strategol yr ardal blismona leol, ac mae craffu ar y lefel yma'n cynnwys:

- Adolygu anghymesuredd a thueddiadau a data cymharol ar draws adrannau;
- Canfod cyfraddau ar draws timau, gan gynnwys anghyfartaledd a niferoedd a thueddiadau gan swyddogion unigol;
- Cydweddu gweithgareddau gyda blaenoriaethau lleol a blaenoriaethau'r heddlu;
- Adolygu unigolion sy'n cael eu stopio'n fynych;
- Cyfreithlondeb y sail a gofnodwyd.

Mae cyfrifoldeb ar y rhai sy'n goruchwylio swyddogion sy'n cynnal stopio a chwilio hefyd i wirio ansawdd y sail dros stopio a gofnodir ar **bob** ffurflen stopio a chwilio ac i sicrhau bod gweithgarwch yn gymesur. Maent hefyd yn edrych ar fideo camerâu corff ac, os oes angen, yn cymryd camau i roi sylw i welliannau fel rhagor o hyfforddiant neu oruchwyliaeth.

Grŵp Gwella Ansawdd Pwerau Gorfodi

Grŵp tactegol, dan gadeiryddiaeth arolygydd sy'n cefnogi'r Bwrdd Craffu ar Bwerau Gorfodi gyda chynrychiolwyr wedi'u henwebu o wahanol rannau o'r heddlu sy'n gyfrifol am:

- Hapsamplu pob cofnod stopio a chwilio a defnyddio grym a fideo camera corff swyddogion;
- Recriwtio, gweinyddu a datblygu hyfforddwyr stopio a chwilio;
- Hyfforddiant a datblygu;
- Arfer gorau cenedlaethol.

4. TRYLOYWDER A LLYWODRAETHU ALLANOL

Fideo Camera Corff

Mae Heddlu Gwent wedi cyflwyno camerâu fideo sy'n cael eu gwisgo ar y corff i bob un o'n swyddogion a staff rheng flaen a disgwylir iddynt ddechrau recordio pryd bynnag y bydd pwerau gorfodi yn cael eu defnyddio neu pan fyddant yn mynd i ddigwyddiadau sy'n debygol o gynnwys gwrthdaro. Mae'r heddlu'n adolygu'r delweddau o ddigwyddiadau o'r fath yn fewnol a thrwy ddangos delweddau a ddewiswyd ar hap i'r Panel Cyfreithlondeb a Chraffu allanol.

Panel Cyfreithlondeb a Chraffu

Sefydlwyd y Panel Cyfreithlondeb a Chraffu gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Mae'r panel yn cynnwys aelodau o'i Grŵp Cynghori Annibynnol sy'n cynnwys grŵp amrywiol o bobl. Mae arweinydd portffolio'r heddlu (Uwch-arolygydd) ac arweinydd tactegol (Arolygydd) yn bresennol yn y cyfarfod i sicrhau bod sylwadau gan y gymuned yn cael eu rhannu gyda'r heddlu yn gyflym. Mae'r panel yn cyfarfod bob tri mis ac mae aelodau'n adolygu:

- Hap-ddetholiad o ddigwyddiadau stopio a chwilio gan gynnwys Fideo Camera Corff;
- Hap-ddetholiad o ddigwyddiadau defnyddio grym gan gynnwys Fideo Camera Corff.

Mae pob aelod o'r panel wedi cael hyfforddiant ar y ddeddfwriaeth berthnasol a phwerau'r heddlu. Mae'r heddlu'n cyflwyno gwybodaeth am y digwyddiadau a ddewiswyd ar gyfer adolygiad a lluniau fideo camera corff. Mae'n defnyddio sylwadau a gafwyd gan y panel i adnabod unrhyw fylchau o ran hyfforddiant neu ddatblygiad neu unrhyw broblemau.

Er mwyn atgyfnerthu gwaith craffu annibynnol ar stopio a chwilio a defnyddio grym, mae'r heddlu wedi gweithio'n agos gyda Swyddfa'r Comisiynydd i ddatblygu prosiect peilot newydd gydag Ysgol Uwchradd John Frost yng Nghasnewydd lle mae pobl ifanc yn gwneud gwaith craffu. Mae dalgylch yr ysgol yn cynnwys ardaloedd amrywiol Pilgwenlli, Dyffryn, Maesglas, Y Gaer, Glasllwch, St. Woolos a Clytha. Bydd y prosiect peilot yma'n gyfle i ymgysylltu gyda'r 'genhedlaeth nesaf' gan sicrhau bod ein gwaith craffu'n cynrychioli gwahanol grwpiau oedran.

Hyfforddiant:

Rydym wedi buddsoddi mewn hyfforddiant ar gyfer ein holl swyddogion rheng flaen a darparu canllawiau ymarferol yn unol ag Arfer Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona ar gyfer defnyddio pwerau stopio a chwilio. Mae hyfforddiant yn cael ei ddarparu trwy gwblhau deunydd ar-lein ond caiff ei ategu gan sesiynau briffio personol parhaus i ringylliaid yn ystod diwrnodiau hyfforddi'r heddlu.

5. DATA STOPIO A CHWILIO

Crynodeb:

- Cynyddodd nifer y digwyddiadau o stopio ychydig yn 2022/23 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol gan 3.4%, ond mae'r ffigwr yma'n sylweddol is na rhai'r blynyddoedd blaenorol ac yn unol â lleihad cenedlaethol 25% ers blynyddoedd y pandemig Covid.

- Yn ystod 2022/23, roedd digwyddiadau stopio yng Nghasnewydd yn cyfrif am 35.7% o gyfanswm yr heddlu. Mae hyn yn cyfrif am y nifer o Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol sydd yn yr ardal yma.

- Cynhaliwyd 56.3% o ddigwyddiadau stopio dan Adran 23 y Ddeddf Cyffuriau, ffigwr sy'n is na rhai'r blynyddoedd blaenorol.

- Mae'r gyfran fwyaf o bobl a gafodd eu stopio a chwilio yn parhau i fod rhwng 18 a 25 oed (33.8% n=705).

- Nifer yr achosion o stopio pobl o leiafrifoedd ethnig fel canran o'r holl achosion stopio a chwilio oedd 13.5% (n=289), gyda'r cyfrannau mwyaf yng ngorllewin Casnewydd, sef 24.4%. 8.6% yw poblogaeth ethnig leiafrifol Gwent.

- Y Gyfradd Anghymesuredd o ran Hil (RDR) gyffredinol oedd 2.0 sy'n golygu bod pobl ethnig leiafrifol yng Ngwent dwywaith yn fwy tebygol o gael eu stopio na rhai gwyn.

- Cyfradd canfod yr heddlu cyfan oedd 26.0%. Roedd y ffigwr yma ar ei uchaf yn Nhorfaen a dwyrain Casnewydd a oedd â chyfraddau canfod o dros 30%.

- Roedd y defnydd o Fideo Camera Corff ar gyfer stopio a chwilio yn 94.4%.

Niferoedd Stopio a Chwilio

	2021/22	2022/23	% Diff.
Person Stops	2078	2135	2.7%
Vehicle Stops	491	521	6.1%
Total	**2569**	**2656**	**3.4%**



Mae'r tabl a'r siart uchod yn dangos bod stopio a chwilio ar y cyfan wedi codi ychydig rhwng 2021/22 a 2022/23, gan 3.4%. Fodd bynnag, mae nifer yr achosion sy'n cael eu cynnal yn parhau i fod yn sylweddol is nac yr oeddent yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae nifer o resymau dros y gostyngiad yma, y mae pob un ohonynt wedi cael eu nodi mewn adroddiadau blaenorol, gan gynnwys yr effaith mae cyfnodau clo Covid wedi eu cael, ailstrwythuro timau a lleihad yn nifer y gweithrediadau ar raddfa fawr sy'n cael eu cynnal.

Total Stops Legal Power Used - 2022/23				
	East LPA	**West LPA**	**Other**	**Total**
S1 PACE 1984	356	414	108	**878**
S139B CJA 1988	0	3	1	**4**
S23 Drugs 1971	589	488	126	**1203**
S47 Firearms 1968	14	13	6	**33**
S6(3) PACE 1984	0	0	0	**0**
Not Recorded	10	0	7	**17**
Other Statutory Power	0	0	0	**0**
Total	**969**	**918**	**248**	**2135**

Mae'r tabl uchod yn dangos mai 'Adran 23 Cyffuriau 1971' yw'r pŵer a ddefnyddir amlaf o hyd ar gyfer stopio pobl, ac mae'n cyfrif am 56.3% o'r holl ddigwyddiadau stopio a chwilio. Mae hwn yn faes sydd eisoes wedi bod yn destun craffu gan Swyddfa'r Comisiynydd fel achos pryder pan oedd mor uchel â 70%. Mae pam y mae cymaint o chwiliadau'n cael eu cynnal yn defnyddio'r pŵer yma yn gwestiwn sy'n codi'n aml, yn lleol ac yn genedlaethol. Mae nifer o'r chwiliadau sy'n cael eu cynnal i ddod o hyd i gyffuriau'n ymwneud â chanabis ac maent yn ganlyniad "sail resymol dros amau", yn rhannol oherwydd arogl unigryw'r cyffur. Mewn nifer o'r achosion yma nid oedd bwriad blaenorol gan y swyddog i gynnal chwiliad ond ar ôl stopio cerbyd er enghraifft ac arogli canabis, daw ffactorau eraill i'r amlwg, fel geriach cyffuriau sydd yn y golwg, wedyn maent yn cynnal chwiliad i gadarnhau neu i liniaru eu hamheuon. (Sylwer: Mae'n bwysig nodi na all swyddogion gynnal chwiliad cyffuriau ar sail arogl canabis yn unig).

Total Person Stops by Section - 2022/23		
Section	**Total Person Stops**	**% of Total Stops**
Blaenau Gwent	192	**9.0%**
Caerphilly Central	115	**5.4%**
Caerphilly North	183	**8.6%**
Caerphilly South	117	**5.5%**
Monmouthshire	205	**9.6%**
Newport City Centre	163	**7.6%**
Newport East	203	**9.5%**
Newport West	398	**18.6%**
Torfaen	311	**14.6%**
Outside Force	47	**2.2%**
No Location	201	**9.4%**
Total	**2135**	

Mae'r tabl uchod yn dangos achosion o stopio unigolion yn ôl adran lle mae lleoliad hysbys wedi cael ei gofnodi. Fel y gwelir, roedd Casnewydd yn cyfrif am 35.7% (n=764) o bob achos o stopio a gynhaliwyd yn ardal yr heddlu, sy'n lleihad o'r canol y 40au a oedd yn cael ei gofnodi'n rheolaidd yn ystod 2020/21.

Mae'r tabl isod yn dangos oedran y rhai a gafodd eu chwilio ym mhob adran yn ystod 2022/23. Mae'n dangos bod y gyfran fwyaf o bobl sy'n cael eu stopio a chwilio yn parhau i fod rhwng 18 a 25 oed (33.8%; n=705). Nifer y bobl dan 17 oed a gafodd eu stopio yw 20.7%; rhywbeth sy'n cael ei fonitro'n ofalus ym mhob cyfarfod craffu.

	Total Person Stops by Age by Section - 2022/23						
Section	**Under 17**	**18-25**	**26-35**	**36-45**	**46-55**	**56-65**	**Over 65**
Blaenau Gwent	51	44	38	34	19	4	0
Caerphilly Central	20	37	22	16	16	2	0
Caerphilly North	42	58	46	20	10	3	2
Caerphilly South	20	49	33	7	6	1	1
Monmouthshire	47	74	49	22	7	0	1
Newport City Centre	38	45	34	22	8	6	0
Newport East	32	72	54	24	18	0	0
Newport West	65	126	87	69	25	8	3
Torfaen	82	115	46	47	15	3	2
Other	34	85	56	41	17	4	1
Total	**431**	**705**	**465**	**302**	**141**	**31**	**10**
Percentage of Total	**20.7%**	**33.8%**	**22.3%**	**14.5%**	**6.8%**	**1.5%**	**0.5%**

Mae'r tabl isod yn dangos y wardiau lle mae mwyafrif yr achosion o stopio pobl wedi digwydd. Mae nifer yr achosion o stopio y mae'r pum ward uchaf yma'n cyfrif amdanynt wedi codi ychydig, o 26.8% yn 2021/22 i 27.7% yn 2022/23. Mae'n golygu bod dros chwarter o'r holl ddigwyddiadau stopio wedi digwydd mewn pum ward yn unig.

Total Person Stops by Ward (Top 5) - 2022/23		
Ward	**Total Person Stops**	**% of Total Stops**
Pillgwenlly	235	11.0%
Stow Hill	163	7.6%
Llantarnam	81	3.8%
Victoria	66	3.1%
Pontypool	47	2.2%
Total	**592**	**27.7%**

Chwiliadau Lleiafrifoedd Ethnig

Total Person Stops v Ethnic Minority Stops by Section - 2022/23			
Section	**Total Person Stops**	**Ethnic Minority Stops**	**% of Ethnic Minority Stops**
Blaenau Gwent	192	9	**4.7%**
Caerphilly Central	115	8	**7.0%**
Caerphilly North	183	8	**4.4%**
Caerphilly South	117	9	**7.7%**
Monmouthshire	205	24	**11.7%**
Newport City Centre	163	32	**19.6%**
Newport East	203	36	**17.7%**
Newport West	398	97	**24.4%**
Torfaen	311	26	**8.4%**
Outside Force	47	10	**21.3%**
No Location	201	30	**14.9%**
Total	**2135**	**289**	**13.5%**

Fel y gellir gweld yn y tabl uchod digwyddodd y niferoedd mwyaf o achosion o chwiliadau lleiafrifoedd ethnig yng ngorllewin Casnewydd (n=97) gyda chyfanswm o 165 yn digwydd ar draws dinas Casnewydd gyfan. Digwyddodd 84 achos o stopio pobl o leiafrifoedd ethnig yn yr holl leoliadau eraill yn ardal yr heddlu. Mae hyn yn golygu mai cyfradd yr heddlu cyfan ar gyfer unigolion ethnig leiafrifol a gafodd eu stopio oedd 13.5%.

Total Stops and RDR by Section - 2022/23						
Section	**Total Person Stops**	**Total White British Stops**	**Total Ethnic Minority Stops**	**White British Population**	**Ethnic Minority Population**	**RDR Rate**
Blaenau Gwent	192	141	9	63,991	2,918	1.4
Caerphilly Central	115	96	8	65,666	2,452	2.2
Caerphilly North	183	162	8	51,305	1,565	1.6
Caerphilly South	117	99	9	52,383	2,583	1.8
Monmouthshire	205	160	24	87,567	5,396	2.4
Newport City Centre	163	91	32	4,369	2,129	0.7
Newport East	203	135	36	59,335	14,974	1.1
Newport West	398	227	97	64,539	14,231	1.9
Torfaen	311	236	26	87,874	4,401	2.2
Total	**1887**	**1347**	**249**	**537029**	**50649**	**2.0**

Uchod mae'r dadansoddiad o achosion lleiafrifoedd ethnig ac achosion gwyn yn ôl adran, gan roi'r RDR ar gyfer pob un. Mae'n dangos ar y cyfan bod gan yr heddlu RDR o 2.0 ar gyfer y flwyddyn. Mae hyn yn golygu bod person o'r gymuned ethnig leiafrifol 2.0 waith yn fwy tebygol o gael ei stopio a chwilio yng Ngwent yn ystod 2022/23 na pherson o gefndir gwyn. Yma gallwn weld bod y boblogaeth llawer is o bobl Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn Sir Fynwy, Canol Caerffili a Thorfaen yn dangos lefel sylweddol uwch o anghymesuredd. Gallai hyn fod oherwydd bod pobl nad ydynt yn breswylwyr yn cael eu stopio a chwilio ar y rhwydwaith ffyrdd er enghraifft. Mae deall yr anghyfartaledd yma'n brif amcan wrth symud ymlaen. Pan fydd y boblogaeth ethnig leiafrifol llawer mwy mewn dinas yn cael ei hystyried, mae'r anghyfartaledd yn lleihau'n sylweddol, gan ddangos yr effaith mae poblogaethau o wahanol faint yn ei chael ar ddata cymesuredd.

Cyfraddau Canfod

Item Found Against Item Searched For by Section - 2022/23					
Section	**Total Person Stops**	**Item Searched for Found**	**Other Item Found**	**Total Finds**	**% Total Find Rate**
Blaenau Gwent	192	39	9	48	25.0%
Caerphilly Central	115	24	3	27	23.5%
Caerphilly North	183	31	10	41	22.4%
Caerphilly South	117	19	9	28	23.9%
Monmouthshire	205	46	7	53	25.9%
Newport City Centre	163	19	16	35	21.5%
Newport East	203	46	16	62	30.5%
Newport West	398	79	30	109	27.4%
Torfaen	311	77	19	96	30.9%
Other	248	43	13	56	22.6%
Total	**2135**	**423**	**132**	**555**	**26.0%**



Mae'r tabl a'r siart uchod yn dangos y cyfraddau canfod ar gyfer pob achos o stopio a gynhaliwyd yn ystod 2022/23 ac yn dangos, ar y cyfan, ar 26.0% o achlysuron, bod yr eitem roedd swyddogion yn chwilio amdani wedi cael ei chanfod. Mae hyn yn fwy na'r gyfradd a ddangoswyd yn nata'r flwyddyn flaenorol, sef 24%.

Fideo Corff

BWV Breakdown by Section - 2022/23							
Section	**Total Person Stops**	**Camera Used**	**Camera Faulty**	**Camera Out of Power**	**No Camera Available**	**Officer Discretion**	**Camera Used %**
Blaenau Gwent	192	185	0	4	1	2	**96.4%**
Caerphilly Central	115	107	3	3	1	1	**93.0%**
Caerphilly North	183	174	1	5	2	1	**95.1%**
Caerphilly South	117	116	0	1	0	0	**99.1%**
Monmouthshire	205	187	6	6	5	1	**91.2%**
Newport City Centre	163	160	0	2	0	1	**98.2%**
Newport East	203	195	1	4	1	2	**96.1%**
Newport West	398	363	11	11	9	4	**91.2%**
Torfaen	311	287	6	5	7	6	**92.3%**
Unknown Location	248	242	1	3	2	0	**97.6%**
Gwent	**2135**	**2016**	**29**	**44**	**28**	**18**	**94.4%**
Percentage of Total		**94.4%**	**1.4%**	**2.1%**	**1.3%**	**0.8%**	

Fel y gwelir yn y tabl uchod, roedd cydymffurfiaeth o ran fideo camera corff yn ystod 2022/23 ar draws yr heddlu yn 94.4%. Ar y nifer fach o achlysuron pan nad oedd camera corff yn cael ei ddefnyddio, diffyg pŵer yn y camera oedd y rheswm mwyaf cyffredin (2.1%; n=44). Mae hyn o bosibl oherwydd problemau TG dechreuol gyda dyfais newydd a gyflwynwyd yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994

Adran 60 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994, yw'r pŵer 'cynhwysfawr' i stopio a chwilio unrhyw unigolyn mewn ardal ddiffiniedig i atal trosedd ddifrifol neu i ganfod arfau y credir sy'n cael eu cario. Mae'n gofyn am awdurdod uwch swyddog. **Ni ddefnyddiwyd y pŵer yma yn ystod y cyfnod 12 mis.**

Chwilio Noeth

	10 - 17 Yrs	18 - 25 Yrs	26 - 35 Yrs	36 - 45 Yrs	46 - 55 Yrs	56 - 65 Yrs	Over 65 Yrs	Recording Error	Grand Total
FULL STRIP	1	21	5	1	1	0	0	0	29
NO - NO CLOTHES REMOVED	293	506	361	224	108	21	10	41	1564
NO - OUTER CLOTHES ONLY	134	172	93	77	32	10	0	9	527
PARTIAL STRIP	1	2	5	0	0	0	0	0	8
NO VALUE	2	4	1	0	0	0	0	0	7
Grand Total	**431**	**705**	**465**	**302**	**141**	**31**	**10**	**50**	**2135**

Mae'r heddlu'n monitro nifer yr achosion o blant sy'n destun chwilio noeth yn fanwl. Cofnodwyd un achos o chwilio noeth llawn i blentyn dan 16 oed a ddigwyddodd yn uned y ddalfa.

Yr hyn y bydd Stopio a Chwilio'n canolbwyntio arno yn y dyfodol a'r camau nesaf

Mae anghymesuredd mewn data stopio a chwilio yn broblem yn genedlaethol ac yng Ngwent. Mae Heddlu Gwent yn cydnabod effaith negyddol a goblygiadau difrifol hyn o ran ymddiriedaeth, hyder a meithrin cydberthnasau effeithiol gyda chymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Mae Heddlu Gwent wedi ymroi i barhau i ymgysylltu a chynnal dialog gyda'n cymunedau amrywiol a'r panel craffu annibynnol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r broblem yma a chanfod sut y gellir lleihau'r anghymesuredd yn y ffordd mae'r pwerau yma'n cael eu defnyddio.

Blaenoriaethau Heddlu Gwent ar gyfer stopio a chwilio 2023/2024

Bydd y blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys:

- Parhau datblygiad i geisio deall ffactorau anghymesuredd.
- Adnabod a gweithredu cyfleoedd ychwanegol i gasglu sylwadau gan gymunedau ynglŷn â'u profiadau o stopio a chwilio.
- Sicrhau bod pobl ifanc yn cyfrannu mwy tuag at graffu ar stopio a chwilio.
- Cynyddu a gwella gwaith craffu ar achosion o stopio cerbydau.

6. DATA DEFNYDDIO GRYM

Volume of Forms	2019/20				2020/21				2021/22				2022/23			
	Q1	Q2	Q3	Q4	Q1	Q2	Q3	Q4	Q1	Q2	Q3	Q4	Q1	Q2	Q3	Q4
	1819	1897	1644	1643	2006	2117	2004	1691	1752	1672	1209	1271	1524	1507	1687	1553

Cyfanswm y Ffurflenni a Gyflwynwyd

Volume of Forms				N Difference		
2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	N change (19-20)	N change (20-21)	N change (21-22)
7003	7818	5904	6538	-465	-1280	634

Cyfanswm y Gwahaniaeth o 2019/20 i 2020/21 o gymharu â 2022/23

Mae'r tablau uchod yn dangos yn 2022/23 bod cyfanswm o 6538 o ffurflenni defnyddio grym wedi cael eu cyflwyno, sef cynnydd o 10.74% (634 ffurflen ychwanegol) o gymharu â 20221/22 (5904 o ffurflenni). Wrth gymharu 2022/23 gyda'r ddwy flynedd flaenorol mae gostyngiad mawr yn nifer y ffurflenni a gyflwynwyd, gostyngiad 16.37% ar 2020/21 a gosyngiad 6.64% ar 2019/20 (gweler y tabl isod). Mae hyn yn cael ei fonitro'n fanwl mewn cyfarfodydd llywodraethu mewnol.

Volume of Forms				% Difference		
2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	% change (19-20)	% change (20-21)	% change (21-22)
7003	7818	5904	6538	-6.64%	-16.37%	10.74%

Cyfanswm Gwahaniaeth Canran

Yn y tabl isod, o'r 6538 ffurflen defnyddio grym a gyflwynwyd yn 2022/23, nododd 5854 (89.54%) bod y person dan sylw o ethnigrwydd Gwyn a nododd 514 (7.86%) o ffurflenni bod y person dan sylw o Grŵp Ethnig Leiafrifol. Ar hyn o bryd mae'r holl ddata ethnigrwydd yn ymwneud â defnyddio grym yn seiliedig ar ganfyddiad y swyddog o ethnigrwydd. Mae'r tabl isod yn seiliedig ar nifer y ffurflenni a gyflwynwyd, felly mae'n bosibl bod rhai pobl dan sylw yn cael eu cyfrif fwy nag unwaith. Mae hyn oherwydd bod rhaid i bob swyddog sy'n defnyddio grym gyflwyno ffurflen i nodi eu rhan yn hynny ac weithiau bydd gofyn i nifer o swyddogion ddefnyddio grym gyda'r un person dan sylw.

	0- 10 Years	11 - 17 Years	18 - 34 Years	35 - 49 Years	50 - 64 Years	65 And Over	Unknown	Total (n)	Total (%)
White	3	509	3063	1778	419	42	40	5854	89.54%
Black (Or Black British)	0	16	107	64	8	0	0	195	2.98%
Asian (Or Asian British)	0	16	128	48	6	0	1	199	3.04%
Chinese	0	0	0	0	0	0	0	0	0.00%
Mixed	0	28	68	21	2	0	1	120	1.84%
Other	0	1	24	14	2	0	1	42	0.64%
Don't Know	0	11	33	21	2	0	61	128	1.96%
Total (n)	3	581	3423	1946	439	42	104	6538	6538
Total (%)	0.05%	8.89%	52.36%	29.76%	6.71%	0.64%	1.59%	100.00%	100.00%

Nifer y Ffurflenni Defnyddio Grym a Gyflwynwyd yn ôl Oedran Canfyddedig ac Ethnigrwydd Canfyddedig

Cyflwynwyd 6538 o ffurflenni yn 2022/23, ac roedd y rhain yn ymwneud â 4755 o unigolion. Mae'r ffigwr yma'n seiliedig ar ddigwyddiadau unigol, sy'n golygu os yw nifer o swyddogion wedi cyflwyno ffurflenni ar gyfer unigolyn am un digwyddiad, dim ond unwaith bydd yr unigolyn yn cael ei gyfrif. Os defnyddiwyd grym yn erbyn unigolyn ar sawl achlysur o fewn un cyfnod o dri mis, bydd yn cael ei gyfrif ar gyfer pob digwyddiad.

O'r 4755 o bobl dan sylw yn 2022/23, roedd 4208 (88.50%) o bobl dan sylw wedi cael eu canfod i fod o grŵp Gwyn a 446 (9.4%) wedi cael eu canfod i fod o grŵp Ethnig Leiafrifol (a grŵp 'arall'). Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos bod 8.6% o boblogaeth Gwent o Grŵp Ethnig Leiafrifol. Mae hyn yn dangos amghymesuredd sydd fwyaf amlwg gyda phobl dduon. O'r 4208 o bobl dan sylw, canfuwyd bod 3.20% (152 o bobl dan sylw) yn Ddu (neu Du Prydeinig), tra mae Cyfrifiad 2021 yn awgrymu mai dim ond 0.78% o'r boblogaeth yng Ngwent sy'n arddel hunaniaeth Ddu. Yn ogystal, canfuwyd bod 3.49% (166 o bobl dan sylw) yn Asiaidd (neu Asiaidd Prydeinig), o gymharu â 2.86% o boblogaeth Gwent sy'n arddel hunaniaeth Asiaidd. Mae'n bwysig ystyried mai dim ond canfyddiad y swyddog o ethnigrwydd pobl dan sylw sydd ar y ffurflen defnyddio grym, tra bod data'r Cyfrifiad yn hunan-ddiffiniad o ethnigrwydd.

	0- 10 Years	11 - 17 Years	18 - 34 Years	35 - 49 Years	50 - 64 Years	65 And Over	Unknown	Total (n)	Total (%)
White	3	360	2148	1319	316	27	35	4208	88.50%
Black (Or Black British)	0	14	83	49	6	0	0	152	3.20%
Asian (Or Asian British)	0	14	103	43	5	0	1	166	3.49%
Chinese	0	0	0	0	0	0	0	0	0.00%
Mixed	0	20	51	19	2	0	1	93	1.96%
Other	0	1	21	11	1	0	1	35	0.74%
Don't Know	0	7	24	15	2	0	53	101	2.12%
Total (n)	3	416	2430	1456	332	27	91	4755	4755
Total (%)	0.06%	8.75%	51.10%	30.62%	6.98%	0.57%	1.91%	100.00%	100.00%

Nifer yr Unigolion y Defnyddiwyd Grym yn eu Herbyn yn ôl Oedran Canfyddedig ac Ethnigrwydd Canfyddedig

	Tactic 1	Tactic 2	Tactic 3	Tactic 4	Tactic 5	Total (n)	Total (%)
AEP Drawn	5	1	0	0	0	6	0.06%
AEP Used	0	0	0	0	0	0	0.00%
Baton Drawn	7	1	2	0	0	10	0.10%
Baton Used	0	0	0	0	0	0	0.00%
C.E.D (Taser)	372	44	14	4	3	437	4.42%
Compliant Handcuffing	2854	560	39	5	1	3459	35.02%
Dog Bite	1	0	0	0	0	1	0.01%
Dog Deployed	29	0	0	0	0	29	0.29%
Firearms Aimed	13	0	0	0	0	13	0.13%
Firearms Fired	0	0	0	0	0	0	0.00%
Ground Restraint	324	332	157	52	12	877	8.88%
Irritant Spray - CS Drawn	0	0	0	0	0	0	0.00%
Irritant Spray - CS Used	0	0	0	0	0	0	0.00%
Irritant Spray - PAVA Drawn	46	28	9	2	0	85	0.86%
Irritant Spray - PAVA Used	55	55	31	11	0	152	1.54%
Limb / Body Restraints	2	5	12	5	2	26	0.26%
Non-Compliant Handcuffing	897	631	186	42	7	1763	17.85%
Other / Improvised	134	55	27	9	0	225	2.28%
Shield	2	0	0	0	0	2	0.02%
Spit Guard	19	40	29	15	14	117	1.18%
Unarmed Skills	1537	616	218	62	0	2433	24.64%
Unknown	241	0	0	0	0	241	2.44%
Total (n)	6538	2368	724	207	39	9876	100.00%
Total (%)	66.20%	23.98%	7.33%	2.10%	0.39%	9876	100.00%

Nifer y Tactegau a Ddefnyddiwyd yn ôl Math o Dacteg

Mae'r tabl uchod yn seiliedig ar yr holl dactegau a ddefnyddiwyd gan bob swyddog. Gall llawer o swyddogion ddefnyddio grym yn yr un digwyddiad a gall pob swyddog ddefnyddio mwy nag un dacteg. Rhaid i swyddogion lenwi'r ffurflen yn y drefn y defnyddiwyd y tactegau. Mae'r Swyddfa Gartref wedi datgan nad oes gofyn am Gyfathrebu Tactegol mwyach, mae unrhyw ffurflen a oedd yn datgan Cyfathrebu Tactegol wedi cael ei golygu â llaw i dynnu'r dacteg honno.

Yn 2022/23, o'r 6538 o ffurflenni a gyflwynwyd, nodwyd bod cyfanswm o 9876 o dactegau wedi cael eu defnyddio. Y dacteg a ddefnyddiwyd mwyaf oedd Gefynnu Ufudd, a ddefnyddiwyd 3459 o weithiau, gan gyfrif am 35.02% o'r holl dactegau a ddefnyddiwyd. Sgiliau Di-arf oedd y dacteg a ddefnyddiwyd fwyaf ar ôl Gefynnu Ufudd a chafodd ei defnyddio 2433 (24.64%) o weithiau, wedyn Gefynnu Anufudd a ddefnyddiwyd 1763 (17.85%) o weithiau. Gefynnu Ufudd oedd y brif dacteg a ddefnyddiwyd fwyaf a chafodd ei dewis fel tacteg 1 ar gyfanswm o 2854 o ffurflenni.

All Tactics	0- 10 Years	11 - 17 Years	18 - 34 Years	35 - 49 Years	50 - 64 Years	65 And Over	Unknown	Total (n)	Total (%)
AEP Drawn	0	0	4	0	2	0	0	6	0.06%
AEP Used	0	0	0	0	0	0	0	0	0.00%
Baton Drawn	0	0	7	2	1	0	0	10	0.10%
Baton Used	0	0	0	0	0	0	0	0	0.00%
C.E.D (Taser)	0	39	233	115	35	0	15	437	4.42%
Compliant Handcuffing	0	248	1785	1139	236	12	39	3459	35.02%
Dog Bite	0	0	1	0	0	0	0	1	0.01%
Dog Deployed	0	3	15	7	0	0	4	29	0.29%
Firearms Aimed	0	2	7	2	1	0	1	13	0.13%
Firearms Fired	0	0	0	0	0	0	0	0	0.00%
Ground Restraint	0	96	539	213	23	1	5	877	8.88%
Irritant Spray - CS Drawn	0	0	0	0	0	0	0	0	0.00%
Irritant Spray - CS Used	0	0	0	0	0	0	0	0	0.00%
Irritant Spray - PAVA Drawn	0	5	45	29	4	0	2	85	0.86%
Irritant Spray - PAVA Used	0	2	89	51	9	0	1	152	1.54%
Limb / Body Restraints	0	2	18	4	2	0	0	26	0.26%
Non-Compliant Handcuffing	0	180	953	497	104	15	14	1763	17.85%
Other / Improvised	0	27	112	61	20	1	4	225	2.28%
Shield	0	0	0	2	0	0	0	2	0.02%
Spit Guard	0	9	65	27	1	0	1	103	1.04%
Unarmed Skills	2	260	1373	624	138	22	28	2447	24.78%
Unknown	1	19	105	76	16	2	22	241	2.44%
Total (n)	3	892	5351	2849	592	53	136	9876	9876
Total (%)	0.03%	9.03%	54.18%	28.85%	5.99%	0.54%	1.38%	100.00%	100.00%

Nifer y Tactegau a Ddefnyddiwyd yn ôl Oedran Canfyddedig

Mae'r tabl uchod yn seiliedig ar gyfanswm y tactegau a ddefnyddiwyd, wedi ei ddadansoddi yn ôl oedran y person dan sylw. Gall pobl dan sylw gael eu cyfrif llawer o weithiau os yw mwy nag un swyddog wedi cyflwyno ffurflen yn ymwneud â'r person hwnnw ac os defnyddiwyd mwy nag un dacteg. Ni all y ffigwr yma fod ar sail nifer y bobl unigol dan sylw oherwydd os defnyddiodd nifer o swyddogion rym yn erbyn un person, efallai eu bod wedi defnyddio gwahanol dactegau ac mae angen cyfrif am bob tacteg.

Gefynnu Ufudd oedd y dacteg fwyaf cyffredin a ddefnyddiwyd ar draws y rhan fwyaf o grwpiau oedran. O'r 892 o dactegau a ddefnyddiwyd yn erbyn pobl dan 11-17 oed, Sgiliau Di-arf oedd 260 ohonynt. Yn yr un modd, ar gyfer pobl dan sylw 18-34 oed, o'r 5351 o dactegau, Gefynnu Ufudd oedd 1785 ohonynt ac i'r rhai 35-49 oed defnyddiwyd Gefynnu Ufudd 1139 gwaith allan o 2849 tacteg. Wrth i oedrannau pobl dan sylw godi, felly hefyd y tebygrwydd o Efynnu Ufudd fel tacteg. Ni ddefnyddiwyd Gefynnu Ufudd o gwbl ar gyfer unigolion dan 11 oed. Ar gyfer y grŵp oedran yma, dim ond tair tacteg a ddefnyddiwyd, Sgiliau Di-arf oedd dwy ohonynt ac roedd un yn anhysbys.

Defnyddiwyd C.E.D. (Taser) fel tacteg ar un person dan sylw 11-17 oed 39 o weithiau. Roedd nifer o ddigwyddiadau lle cyflwynwyd nifer o ffurflenni gyda Taser fel tacteg ar gyfer yr un person a oedd rhwng 11-17 oed Roedd pob ffurflen yn nodi bod y person dan sylw o ethnigrwydd Gwyn ac mai defnydd mwyaf cyffredin y Taser oedd dot coch, h.y. heb ei danio.

All Tactics	White	Black (Or Black British)	Asian (Or Asian British)	Chinese	Mixed	Other	Don't Know	Total (n)	Total (%)
AEP Drawn	6	0	0	0	0	0	0	6	0.06%
AEP Used	0	0	0	0	0	0	0	0	0.00%
Baton Drawn	10	0	0	0	0	0	0	10	0.10%
Baton Used	0	0	0	0	0	0	0	0	0.00%
C.E.D (Taser)	371	21	17	0	10	6	12	437	4.42%
Compliant Handcuffing	3049	124	139	0	66	30	51	3459	35.02%
Dog Bite	1	0	0	0	0	0	0	1	0.01%
Dog Deployed	25	0	0	0	0	0	4	29	0.29%
Firearms Aimed	10	1	1	0	0	0	1	13	0.13%
Firearms Fired	0	0	0	0	0	0	0	0	0.00%
Ground Restraint	813	17	12	0	18	4	13	877	8.88%
Irritant Spray - CS Drawn	0	0	0	0	0	0	0	0	0.00%
Irritant Spray - CS Used	0	0	0	0	0	0	0	0	0.00%
Irritant Spray - PAVA Drawn	76	4	1	0	2	0	2	85	0.86%
Irritant Spray - PAVA Used	145	1	0	0	3	1	2	152	1.54%
Limb / Body Restraints	25	0	0	0	0	0	1	26	0.26%
Non-Compliant Handcuffing	1628	38	42	0	32	6	17	1763	17.85%
Other / Improvised	197	8	5	0	5	3	7	225	2.28%
Shield	2	0	0	0	0	0	0	2	0.02%
Spit Guard	95	2	1	0	3	0	2	103	1.04%
Unarmed Skills	2266	51	47	0	44	4	35	2447	24.78%
Unknown	203	4	4	0	3	2	25	241	2.44%
Total (n)	8922	271	269	0	186	56	172	9876	9876
Total (%)	90.34%	2.74%	2.72%	0.00%	1.88%	0.57%	1.74%	100.00%	100.00%

Nifer y Tactegau a Ddefnyddiwyd yn ôl Ethnigrwydd Canfyddedig

Mae'r tabl uchod yn dangos nifer y tactegau a ddefnyddiwyd yn ôl ethnigrwydd (canfyddedig gan y swyddog) y person dan sylw. Gall pobl dan sylw gael eu cyfrif llawer o weithiau os yw mwy nag un swyddog wedi cyflwyno ffurflen yn ymwneud â'r person hwnnw ac os defnyddiwyd mwy nag un dacteg. Ni all y ffigwr yma fod ar sail nifer y bobl unigol dan sylw oherwydd os defnyddiodd nifer o swyddogion rym yn erbyn un person, efallai eu bod wedi defnyddio gwahanol dactegau ac mae angen cyfrif am bob tacteg.

Yn 2022/23 Gefynnu Ufudd oedd y dacteg fwyaf cyffredin a ddefnyddiwyd ar draws pob un o'r grwpiau ethnigrwydd. Sgiliau Di-arf oedd y dacteg a ddefnyddiwyd fwyaf ar ôl Gefynnu Ufudd ar gyfer y grwpiau ethnig.

Yr hyn y bydd Defnyddio Grym yn canolbwyntio arno yn y dyfodol a'r camau nesaf:

- Monitro nifer y ffurflenni defnyddio grym a gyflwynir yn fanwl, gan gydnabod lleihad yn y blynyddoedd diweddar.
- Parhau datblygiad i geisio deall ffactorau anghymesuredd o ran defnyddio grym.
- Canfod a gweithredu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer casglu sylwadau gan gymunedau ynglŷn â'u profiadau o ddefnyddio grym.
- Sicrhau bod pobl ifanc yn cyfrannu mwy tuag at graffu ar ddefnyddio grym.

7. YSTYRIAETHAU O RAN PERSONÉL

Dim

8. YSTYRIAETHAU CYFREITHIOL

Dim

9. YSTYRIAETHAU CYDRADDOLDEB A HAWLIAU DYNOL

- Wrth baratoi'r adroddiad yma rhoddwyd ystyriaeth i'r ddyletswydd gyffredinol i hybu cydraddoldeb, fel y nodir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd ac aseswyd nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grŵp penodol.

- Wrth baratoi'r adroddiad yma, rhoddwyd ystyriaeth i ofynion yr erthyglau a gynhwysir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998.

10. RISG

- Oherwydd canlyniadau archwiliadau a chyfraddau islaw'r cyfartalog o ran cydymffurfio â'r Safon Genedlaethol Cofnodi Troseddau caiff y mater yma ei gynnwys ar Gofrestr ar y Cyd yr Heddlu/Swyddfa'r Comisiynydd fel risg uchel.

11. BUDD Y CYHOEDD

- Wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn, a roddwyd ystyriaeth i 'hyder y cyhoedd'? Do

- Ydi cynnwys, sylwadau ac atodiadau'r adroddiad hwn yn angenrheidiol ac yn addas ar gyfer y cyhoedd? Ydy

- Os ydych chi'n credu nad yw'r adroddiad hwn yn addas ar gyfer y cyhoedd, nodwch y rhesymau dros hynny: (neu rhowch 'ddim yn berthnasol')

- Effeithiau o ran Cyfryngau, Rhanddeiliaid a Chymuned:

12. AWDUR YR ADRODDIAD

- Uwch-arolygydd Mike Richards

13. SWYDDOG HEDDLU SY'N ARWAIN

- Prif Gwnstabl Cynorthwyol Mark Hobrough

14. ATODIADAU

- Dim

15. CYMERADWYAETH Y PRIF SWYDDOG

- Yr wyf yn cadarnhau bod yr adroddiad hwn wedi cael ei drafod a'i gymeradwyo mewn cyfarfod ffurfiol o'r Prif Swyddogion.

- Yr wyf yn cadarnhau bod yr adroddiad hwn / nad yw'r adroddiad hwn yn addas ar gyfer y cyhoedd am y rhesymau a nodir yn 11.3.

Llofnod: **Dyddiad: 01/09/2023**